# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

**DYDD** Mawrth, 12 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** J. Tremlett (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 9.00 yb - 9.20 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14EG MAI, 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mai, 2019 yn gofnod cywir.**

## 3. TALIADAU DIBRESWYL 2019-2022

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad oedd yn manylu ar effaith bosibl newidiadau Llywodraeth Cymru i'r "Cap" ar daliadau am wasanaethau dibreswyl a'r angen i daliadau gynyddu yn Sir Gaerfyrddin er mwyn parhau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl.

Er mwyn adennill costau'n llawn ar gyfer 2020-21, ac i gysoni cyfraddau ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, cynigiwyd cynyddu taliadau Dibreswyl am wasanaethau a godir fesul awr o £14.00 i £16.50 (17.85%) a thaliadau Gofal Dydd a Lleoli Oedolion o £13.50 i £16.15 (17.85%).

Nodwyd y byddai'r incwm ychwanegol ar gyfer 2020-2021 yn oddeutu £34K petai'r taliadau am wasanaethau yn cael eu pennu i sicrhau'r incwm mwyaf posibl.

**PENDERFYNWYD bod Sir Gaerfyrddin yn cynyddu'r taliadau dibreswyl ar gyfer gwasanaethau y codir tâl amdanynt fesul awr o £14.00 i £16.50 (17.85%) a chynyddu'r taliadau ar gyfer Gofal Dydd a Lleoli Oedolion o £13.50 i £16.15 (17.85%).**

____________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**